OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Gwnaed Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2019 (O.S. 2019/237 (Cy. 56)) a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/887 (Cy. 159)) gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) ("Deddf 2016").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1715 (Cy. 177)) a Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/746 (Cy. 75)) er mwyn cywiro mân wallau a wnaed i'r offerynnau hynny gan Reoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2019.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiad i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 er mwyn cywiro gwall croesgyfeirio yn rheoliad 8(1) o'r offeryn hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *31 Mai 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *3 Mehefin 2019* |
| *Yn dod i rym* | *1 Gorffennaf 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 52(1), 186 a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2019 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2019.

**Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006**

**2.** Yn rheoliad 4(3) o Reoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006(**2**), yn lle "cynllun lleoli unigolyn" rhodder "cytundeb lleoli unigolyn".

(**1**) 2016 dccc 2; *gweler* adran 189 am y diffiniad o "a ragnodir" a "rhagnodedig".

(**2**) O.S. 2006/1715 (Cy. 177); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2016/216 (Cy. 85), 2019/237 (Cy. 56).

## Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010

**3.** Yn rheoliad 4(b) o Reoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010(**1**), yn lle "9(7)(a)" rhodder "9(7)".

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019

**4.** Yn rheoliad 8(1) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019(**2**), yn lle "rheoliad 12" rhodder "adran 52(1) o'r Ddeddf".

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
31 Mai 2019

(**1**) O.S. 2010/746 (Cy. 75); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2016/211 (Cy. 84), 2019/237 (Cy. 56).
(**2**) O.S. 2019/887 (Cy. 159).